Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Borth
# Porthaethwy
# Ynys Môn
# LL59 5HS

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Borth wedi ei lleoli yn nhref Porthaethwy, Ynys Môn. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion 3-11 oed. Mae'n gwasanaethu'r dref a phentrefi Llansadwrn a Rhoscefnhir. Mae 227 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 32 o oed meithrin. Mae naw dosbarth yn yr ysgol, gyda saith ohonynt yn rhai oed cymysg.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 20% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 24% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym Mai 2010. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2013, a'r dirprwy ers Medi 2015.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Borth yn 2015-2016 yw £3,642. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £6,763 a'r lleiafswm yw £2,889. Mae Ysgol y Borth yn y 43fed safle o'r 47 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu
- O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n fuan a llawer ohonynt yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- Bod y disgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen ac ysgrifennu yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- Ei bod yn darparu profiadau dysgu cyfoethog
- Bod rhan fwyaf yr addysgu yn effeithiol a chymorthyddion yn cefnogi dysgu yn effeithiol
- Bod iddi ethos cynhwysol a chartrefol, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- Bod y pennaeth yn darparu arweiniad cryf, sydd eisoes wedi arwain at welliannau clir
- Bod y staff yn gefnogol i'r pennaeth ac yn cydweithio fel tîm
- Bod gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- Bod y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- Bod y llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- Bod partneriaeth werthfawr yn bodoli gyda'r rhieni a'r gymuned

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau rhesymu ac ymholi yn enwedig mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2

A2 Parhau i wella presenoldeb

A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu her gyson i'r disgyblion mwy abl yn y Cyfnod Sylfaen

A4 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol

A5 Datblygu rôl arweinyddol aelodau yr uwch dîm rheoli i ganolbwyntio mwy ar fonitro a sicrhau ansawdd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed ac eithrio yn y Gymraeg, sydd yn newydd i lawer ohonynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fuan. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau llafar disgyblion eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn medru siarad am eu gwaith â hyder cynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod mae llawer o'r disgyblion yn mynegi eu hunain yn glir a chywir, er enghraifft, wrth drafod sut i ddatblygu gwefan yr ysgol. Mae rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl ac ystyrlon ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf yn deall y cyd-destun a rhediad y straeon ac yn trafod y cynnwys yn ddeallus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn y ddwy iaith yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau, er enghraifft, wrth gywain gwybodaeth am fywyd plant yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus, gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gyson. Mae llawer yn ysgrifennu'n briodol i'w hoed ar draws y meysydd dysgu. Er hyn, ychydig o ddisgyblion sy'n ysgrifennu yn estynedig yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg at wahanol ddibenion yn effeithiol. Maent yn ysgrifennu'n drefnus gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn rhesymegol ac yn effeithiol. Maent yn defnyddio paragraffau ac yn atalnodi'n gywir yn y ddwy iaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus. Maent yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft, wrth ysgrifennu am daith y Cymry i'r Wladfa.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu ymdrin ag ystod eang o weithgareddau rhif yn llwyddiannus. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion meithrin gyfrif,

trefnu a didoli rhifau i 10 yn gywir.  Wrth symud drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod siapiau, deall pwrpas arian ac yn defnyddio amser yn effeithiol ac ymarferol.  Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn casglu, dadansoddi a chraffu gwybodaeth ar ffurf graff yn effeithiol.  Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn synhwyrol wrth ddadansoddi a datrys problemau.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif.  Mae llawer yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn perthynas â'u gwaith mewn pynciau eraill, er enghraifft, wrth gymharu gwybodaeth am wahanol fynyddoedd.  Maent yn defnyddio cyfesurynnau'n gywir wrth astudio gwahanol fapiau ac yn gwneud defnydd effeithiol o ddata, er enghraifft wrth gymharu tymheredd a glawiad mewn gwahanol leoliadau.  Er hyn, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ar draws cyfnod allweddol 2 yn eu defnydd o fedrau rhesymu a datrys problemau yn enwedig wrth gynnal ymholiadau mewn gwyddoniaeth.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol.  Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu.  Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yn y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni cystal ag y gallent.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.  Ar y deilliant uwch, mae perfformiad wedi gostwng ac yn gosod yr ysgol yn y 50% is a'r 25% isaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio ac yn gosod yr ysgol gan amlaf yn y 50% uwch neu'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.  Ar y lefel uwch, mae perfformiad disgyblion yn amrywio'n fawr ac nid oes unrhyw batrwm cyffredinol.

Yn gyffredinol, mae'r merched yn gwneud yn well na'r bechgyn; er hyn, mae'r asesiadau ar gyfer cyfnod allweddol 2 dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos bod yn bwlch wedi cau ac, yn 2015, fod y bechgyn wedi cyflawni uwchlaw'r merched.  Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

**Lles:  Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno.  Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.  Mae bron bob un yn deall yr angen i gadw'n heini ac yn manteisio ar yr ystod o gyfleoedd sy'n cael eu cynnig i wneud hynny gan gynnwys y clwb dringo a nofio.

Mae medrau personol a chymdeithasol, ynghyd â medrau bywyd y disgyblion, yn datblygu'n effeithiol.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Gall llawer weithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig, gan arddangos dyfalbarhad.  Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill yn gyson.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn weithgar yn yr ysgol ac mae llais y disgybl yn cael lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft, wrth gynllunio gwelliannau i'r ardal allanol. Mae'r aelodau yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yr ysgol is nag ysgolion tebyg. Mae ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'r cynllunio'n fanwl ac yn cyflwyno egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn dda. Mae'r ddarpariaeth allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ysgogol. Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau allgyrsiol sy'n ateb anghenion y disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys clwb dringo mewn canolfan awyr agored gyfagos. Mae'r amrywiaeth o ymweliadau addysgol, ymwelwyr i'r ysgol a'r profiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn dda.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae athrawon yn cynllunio amrediad buddiol o weithgareddau sy'n datblygu medrau llythrennedd y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau meddwl a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynnig amrediad da o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhif. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth yn cynnig digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhesymu a datrys problemau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr ac amrywiol i ddatblygu a hyrwyddo gwybodaeth disgyblion o'u diwylliant a'u hetifeddiaeth leol. Mae'r athrawon yn darparu profiadau effeithiol i hyrwyddo Cymreictod y disgyblion ac i ymfalchïo yn y traddodiadau Cymreig.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau buddiol sy'n hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd fel eu gwaith o ddatblygu'r gerddi ac ailgylchu. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn addas drwy weithgareddau elusennol a'i gwaith am Lesotho a Syria.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn y rhan fwyaf o wersi yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith er mwyn gwella ansawdd iaith lafar disgyblion. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae cyflwyniadau'r athrawon a'u cyfarwyddiadau yn glir, ac mae strwythur cadarn y gwersi yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gallu ymateb yn llwyddiannus i'w tasgau. Mae cyflymdra'r gwersi'n dda ac mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Yn yr ychydig enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae gorgyfarwyddo yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. O ganlyniad, nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch, yn gwneud cynnydd llawn, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu yn y gwersi ac maent yn cynnig adborth gwerthfawr iddynt yn ystod y gwersi. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Lle mae'r marcio fwyaf effeithiol, er enghraifft, yn y llyfrau iaith, mae sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad clir iddynt ar sut i wella'r gwaith. Er hyn, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol sy'n cyfrannu at wella deilliannau. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n hyrwyddo lles y disgyblion yn dda. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r cyfnodau o gyd-addoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn, ynghyd â gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad da, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad y disgyblion, eu datblygiad ysbrydol ac ethos yr ysgol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb, sydd eisoes wedi dechrau arwain at welliant.

Mae'r cydweithio agos sy'n bodoli rhwng yr ysgol a gwasanaethau arbenigol yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da ar gyfer y disgyblion a'r rhieni. Enghraifft o hyn yw'r cydweithio effeithiol gyda'r therapydd iaith i sicrhau cefnogaeth fuddiol wrth ymateb i anghenion lleferydd disgyblion penodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar iawn ac yn darparu cynhaliaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth sy'n deillio o arsylwadau a phrofion i olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn fedrus i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae targedau clir a chyraeddadwy yn cael eu nodi yn y cynlluniau addysg unigol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, gyfeillgar a theuluol lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal gyda mynediad i holl weithgareddau'r ysgol. Mae staff yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion a'i gilydd yn llwyddiannus, ac yn talu sylw i gyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau. Adlewyrchir hyn yng ngweithgareddau'r Cyngor Ysgol sydd yn amlwg yn fforwm pwysig yn yr ysgol. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais.

Mae'r staff wedi creu amgylchedd dysgu diogel a deniadol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae ardaloedd allanol amrywiol ysgogol yn annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n raenus gyda safon uchel o lanweithdra. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd ym mhob rhan o'r ysgol sy'n dathlu gwaith y disgyblion, gan gynnwys adroddiadau ymweliadau, gwaith celf o safon uchel a'u gwaith ysgrifenedig. Mae hyn yn cefnogi'r addysgu yn dda ac yn ychwanegu at ethos cartrefol a chroesawgar yr ysgol. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Maent wedi'u storio'n drefnus, ac yn hylaw i'w defnyddio gan holl staff a disgyblion yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion. Mae'n darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i greu ysgol effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi sefydlu uwch dîm rheoli newydd. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau drwy weithredu nifer o strategaethau gwerthfawr. Fodd bynnag, nid yw rôl monitro a sicrhau ansawdd aelodau'r tîm hwn wedi datblygu'n llawn hyd yma.

Mae gan yr athrawon ddisgrifiadau swydd manwl sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau unigol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle, sy'n gosod targedau addas ar gyfer datblygu medrau athrawon ymhellach. Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. O ganlyniad, mae'r staff yn cydweithio yn effeithiol fel tîm.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus. Mae'r athrawon wedi diweddaru'r cynlluniau er mwyn ymateb yn fwy cyson i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Enghraifft o hyn yw'r datblygiad diweddar i godi safonau ysgrifennu estynedig.

Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi’r ysgol yn dda, ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn drylwyr.  Mae aelodau’r corff yn ymateb yn gydwybodol i’w rôl strategol trwy ddadansoddi data yn ofalus a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella yn drwyadl.  Mae eu hymweliadau â’r ysgol yn rhoi ffocws clir iddynt ar wahanol agweddau, gan gynnwys dealltwriaeth gadarn o berfformiad y disgyblion ynghyd â’r agweddau hynny sydd angen gwelliant.  O ganlyniad, maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae’r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy’n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol.  Maent yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a cheisio barn rhieni a llywodraethwyr yn rheolaidd.  Er hyn, nid yw’r sylwadau yn dilyn arsylwadau gwersi a chraffu bob amser yn ffocysu’n ddigon clir ar y meysydd sydd angen eu gwella.  Mae llais y disgybl yn bwysig ac mae disgyblion yn cael cyfle i fynegi barn drwy holiaduron perthnasol.  Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella, er enghraifft trefn cynnig gwaith cartref.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn cynnig darlun cywir o safonau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth yr ysgol.  Mae cyswllt amlwg rhwng blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol a deilliannau’r gweithdrefnau hunanarfarnu.  Mae’r cynllun yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i’r afael â’r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau.  Mae’n nodi targedau perthnasol a phenodol, ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy’n canolbwyntio’n bwrpasol ar ddeilliannau disgyblion.  Mae’n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd.

Mae’r pennaeth eisoes wedi rhoi nifer o strategaethau a phrosesau gwerthfawr ar waith sydd wedi arwain at welliannu clir, er enghraifft codi safon ysgrifennu estynedig a gwella presenoldeb.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn sy’n cyfrannu’n dda at wella safonau a lles disgyblion yn effeithiol.  Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni.  Mae cymdeithas ffrindiau’r ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd.  Caiff yr arian ei ddefnyddio’n effeithlon i brynu adnoddau a chaledwedd TGCh sy’n cyfoethogi’r dysgu.

Mae partneriaeth lwyddiannus iawn yn bodoli gyda’r ysgol feithrin sydd wedi ei lleoli yn yr ysgol.  Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae trefniadau pontio effeithiol yn bodoli gyda’r ysgol uwchradd sy’n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i’r cam nesaf yn eu haddysg.  Mae’r ysgol hefyd yn cydweithio’n llwyddiannus gyda’r ysgol uwchradd a’r ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon er mwyn sicrhau bod asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gadarn.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gyda swyddogion yr awdurdod lleol, er enghraifft i godi lefelau presenoldeb.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli gyda'r gymuned leol. Mae gweithgareddau cymunedol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw'r gwaith mae'r ysgol yn ei wneud mewn partneriaeth gyda 'Cadw Cymru'n Daclus'. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol yn yr eglwys a chapeli lleol. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o falchder at eu hardal leol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o'u harbenigedd. Mae tîm medrus a brwdfrydig o gynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth effeithiol iawn ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu a'u lles. Maent yn cynnig cefnogaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol at godi safon gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon ac mae athrawon yn defnyddio eu hamser digyswllt yn briodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli yn dda i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg iawn yn y defnydd a wneir o'r ardal allanol.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff mewn meysydd priodol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ynghyd â blaenoriaethau gwella penodol y staff.

Mae'r ysgol yn gweithio yn effeithiol gydag ysgolion eraill yn yr ardal. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion, er enghraifft ar safonau ysgrifennu yn yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn rheoli gwariant yn ofalus. Maent yn sicrhau bod y gwariant wedi'i gysylltu'n dda ag amcanion, targedau a blaenoriaethau'r ysgol. Gwneir defnydd priodol o'r grant amddifadedd i dargedu perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602175 - Ysgol Gynradd y Borth**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 201 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 26 | 20 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 92.3 | 95.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 20 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 95.0 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.3 | 45.0 | 23.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 20 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 95.0 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 53.8 | 50.0 | 26.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 20 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 100.0 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 61.5 | 75.0 | 36.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602175 - Ysgol Gynradd y Borth**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 201 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 31 | 24 | 30 | 29 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.9 | 95.8 | 90.0 | 89.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 24 | 30 | 29 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.8 | 95.8 | 90.0 | 93.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 48.4 | 41.7 | 30.0 | 24.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 24 | 30 | 29 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.3 | 87.5 | 90.0 | 86.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.6 | 20.8 | 23.3 | 20.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 24 | 30 | 29 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.1 | 95.8 | 90.0 | 93.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.7 | 37.5 | 20.0 | 34.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 24 | 30 | 29 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.5 | 95.8 | 96.7 | 93.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 48.4 | 58.3 | 26.7 | 27.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 90 | 90 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 90 | 89 | 1 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 90 | 85 | 5 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 90 | 88 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 90 | 86 | 4 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 90 | 86 | 4 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 90 | 89 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 90 | 85 | 5 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 90 | 84 | 6 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 90 | 88 | 2 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 90 | 80 | 10 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 89% | 11% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 89 | 84 | 5 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 28 | 23 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 28 | 23 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 28 | 25 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 27 | 20 | 6 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 74% | 22% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 25 | 18 | 7 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 26 | 22 | 4 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 28 | 23 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 23 | 15 | 8 | 0 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 25 | 19 | 5 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 76% | 20% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 28 | 21 | 5 | 2 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 75% | 18% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 28 | 26 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 22 | 15 | 6 | 0 | 1 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 68% | 27% | 0% | 5% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 27 | 14 | 10 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 52% | 37% | 7% | 4% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 28 | 18 | 9 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 64% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 26 | 12 | 12 | 1 | 1 | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 46% | 46% | 4% | 4% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 28 | 19 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 15 | 8 | 6 | 1 | 0 | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 26 | 14 | 10 | 2 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 8% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 28 | 19 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Hugh Rhys-Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alan MacDonald | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.